**Ymateb y Llywodraeth: Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws a Swyddogaethau Awdurdodau Lleol) (Diwygio) (Cymru) 2020**

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 2: mesurau i liniaru'r effaith economaidd ac ystyriaeth i ddewisiadau eraill**

Roedd y Rheoliadau yn cryfhau'r cyfyngiadau yng Nghymru er mwyn canolbwyntio ar fannau lle y mae pobl yn cwrdd â'i gilydd a lle y mae'r coronafeirws yn ffynnu. Rydym wedi defnyddio'r dystiolaeth ddiweddar gan Grŵp Cynghori Gwyddonol ar Argyfyngau y Deyrnas Unedig (SAGE), a ystyriodd pa ymyriadau sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar y feirws. Amlygodd y dystiolaeth effaith gadarnhaol y mesurau yn system lefel tri yr Alban a chyfyngiadau haen tri Lloegr.

Roedd llawer o'r rhain eisoes ar waith yng Nghymru. Ystyriodd y Cabinet amrywiadau ar fesurau pellach a oedd i gyd yn cyfateb yn fras i'r rheini yn Lloegr a'r Alban. Roedd y Rheoliadau a oedd yn cael eu hystyried yn gosod cyfyngiadau newydd ar gyfer y sector lletygarwch, y sector adloniant ac atyniadau o dan do.

I ategu'r cymorth arall sydd ar gael (e.e. Cynllun Cadw Swyddi a Chynllun Cymorth Incwm i'r Hunangyflogedig Llywodraeth y Deyrnas Unedig), mae pecyn cymorth sylweddol gwerth £340m i fusnesau y mae'r cyfyngiadau yn effeithio arnynt yn sylweddol wedi cael ei ddatblygu gan Lywodraeth Cymru. Cronfa i Fusnesau dan Gyfyngiadau gwerth £160m yw'r elfen gyntaf, a fydd yn rhoi taliadau o £3,000 neu £5,000 i fusnesau yn y sector lletygarwch. Bydd busnesau yn y sectorau twristiaeth, hamdden, manwerthu a'r gadwyn gyflenwi hefyd yn gymwys i gael y cymorth hwn os yw eu trosiant yn gostwng fwy na 40% yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau. Bydd y taliadau hyn yn cael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol.

Mae ail elfen ychwanegol o gymorth yn cael ei rhoi ar gael i fusnesau yn y sectorau lletygarwch, twristiaeth a hamdden neu gwmnïau yn y gadwyn gyflenwi y mae eu trosiant yn gostwng fwy na 60% yn ystod y cyfnod o gyfyngiadau. Aeth y gwiriwr cymhwysedd ar gyfer y pecyn newydd hwn yn fyw ar 11 Rhagfyr 2020 a bydd y broses ymgeisio yn agor ym mis Ionawr 2021.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 3: gwall yn y nodyn esboniadol**

Mae'r Llywodraeth yn ddiolchgar am gael gwybod am y mater. Fel y mae'r Pwyllgor yn ei nodi, defnyddiwyd y dyddiadau cywir yn y Rheoliadau eu hunain ac yn y Memorandwm Esboniadol.

**Pwynt Craffu ar Rinweddau 4: cyhoeddi crynodeb o asesiad effaith integredig**

Cyhoeddwyd y crynodeb o'r asesiad effaith integredig ar wefan y Llywodraeth ddydd Llun 14 Rhagfyr.